

SWYDD FEWNOL/ALLANOL: ASESYDD IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL Peidiwch â chynnwys CV. Llenwch bob rhan o'r ffurflen gais a'i dychwelyd at jobs@cymoedd.ac.uk			
CWMNI	COLEG Y CYMOEDD	DYDDIAD HYSBYSEBU	18/11/2021
SWYDD	ASESYDD IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL	ORIAU/HYD	37 AWR Y WYTHNOS LLAWN AMSER/PARHAOL
CYFLOG	GRADDFA 6 £27,492.00 - £29,352.00	LLEOLIAD	CAMPWS YSTRAD MYNACH (OND EFALLAI BYDD GOFYN GWEITHIO AR EIN CAMPWS ABERDÂR, NANTGARW AC Y RHONDDA)
DYDDIAD CAU	25/11/2021 12:00 HANNER DYDD (NI CHAIFF CEISIADAU A DDERBYNNIR AR ÔL 12:00PM HANNER DYDD EU HYSTYRIED)	DYDDIAD CYFWELIAD	10/12/2021

Mae hwn yn gyfle gwych i weithio i gwmni sydd wedi'i hen sefydlu ac sy'n gwerthfawrogi'ch cyfraniad, yn cefnogi'ch datblygiad personol ac yn eich herio i wneud eich gorau glas i'n dysgwyr.

Y SWYDD

Mae gennym gyfle cyffrous i Asesydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol ymuno â'n Tîm Dysgu Seiliedig ar Waith, wedi'i leoli ar ein campws yn Ystrad Mynach. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymuno â ni ar sail swydd barhaol a llawn amser a bydd yn derbyn nifer o fudd-daliadau a chyflog cystadleuol fydd yn seiliedig ar brofiad a chymwysterau.

Y CWMNI

Mae'n gyfnod cyffrous iawn i Goleg y Cymoedd - mae canlyniadau dysgwyr wedi gwella'n sylweddol, gydag enghreifftiau o ymarfer sy'n arwain y sector mewn rhai ysgolion, a rhaglenni academaidd a galwedigaethol yn ennill canlyniadau sy'n cyd-fynd â'r cymaryddion cenedlaethol. Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol yn yr ystâd gan gynnwys dau gampws newydd yn Aberdâr a Nantgarw a nifer o ganolfannau rhagoriaeth sy'n benodol i'r diwydiant, a gefnogir gan ystod o gyflogwyr proffil uchel.

CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL

- Hyrwyddo a chyflwyno gweledigaeth, gwerthoedd ac ymddygiadau corfforaethol y Coleg.
- Hyrwyddo cysylltiadau proffesiynol positif gyda chwsmeriaid, gan gynnwys staff a dysgwyr.
- Hyrwyddo cynllun strategol y Coleg a'i werthoedd a bod yn sbardun ar gyfer newid a menter.
- Ymfalchïo yng Ngholeg y Cymoedd a chwarae rhan weithredol mewn diwylliant "Un Coleg" sy'n canolbwyntio ar wneud y cymoedd yn gryfach trwy addysg, sgiliau a hyfforddiant rhagorol.
- Bod yn rhagweithiol, addasadwy a hyblyg i ymateb i anghenion y busnes a marchnadoedd cyfnewidiol er mwyn bod yn llwyddiannus.
- Datblygu, cyflwyno ac asesu gweithgareddau dysgu seiliedig ar waith yn unol â chymwyseddau personol.
- Cynnal archwiliadau iechyd a diogelwch cyn y lleoliad gwaith a monitro iechyd a diogelwch yn y gweithle yn barhaus.
- Cymryd rhan mewn prosesau recriwtio, asesu cychwynnol a sefydlu.
- Monitro cynnydd a pherfformiad dysgwyr i sicrhau bod targedau o fewn CDUau yn cael eu bodloni.
- Sicrhau bod y themâu trawsbynciol e.e. ADCDF, GCA, Cymraeg yn cael eu hymgorffori ym mhrosesau cyflwyno ac asesu.
- Cymryd rhan yn y broses ddilysu fewnol o fewn eu maes arbenigedd.

- Sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cofrestru ar gyfer cymwysterau priodol ac yn cwblhau eu cymwysterau o fewn amserlenni a roddwyd.
- Cymryd rhan yn fframwaith ansawdd y coleg i sicrhau bod y safonau uchaf yn cael eu cyrraedd a'u cynnal o ran hyfforddi ac asesu.
- Cwblhau'r holl ddogfennaeth briodol mewn perthynas â'r contract dysgu'n seiliedig ar waith, o fewn terfynau amser ac i gydymffurfio â gofynion archwilio.
- Cysylltu â staff y coleg i gynnal cynnydd a thargedau dysgwyr mewn perthynas â fframweithiau prentisiaeth.
- Marchnata'r rhaglenni i gyflogwyr, darpar ddysgwyr ac asiantaethau allanol.
- Cynhyrchu gwybodaeth gywir ac amserol ar gyfer Cydlynnydd y maes o ran targedau a pherfformiad.
- Cefnogi Cydlynnydd y maes wrth sicrhau bod y targedau ar gyfer y Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn cael eu cyflawni.
- Cynorthwyo Cydlynnydd y maes i gynhyrchu adroddiadau hunanasesu.
- Cefnogi Pennaeth yr Ysgol i ddatblygu strategaethau i gynnal hunaniaeth gref yn fewnol ac yn allanol i'r Coleg.
- Cydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau ac arferion AD.
- Cydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau ac arferion Iechyd a Diogelwch.
- Cydymffurfio â Rheoliadau a Gweithdrefnau Ariannol.

YR HYN YR YDYM YN EI GYNNIG

Mae'r coleg yn cynnig ystod o fuddion lles a chydbwysedd bywyd a gwaith i gydnabod a gwobrwyo'r cyfraniad hanfodol y mae ein staff yn ei wneud i'n llwyddiant a'n twf. I enwi ond ychydig, bydd gennych fynediad at:

- Cynlluniau pensiwn cyflog terfynol
- Parcio am ddim ar ein holl gampysau
- Aelodaeth hamdden ostyngedig
- Rhaglen Cymorth i Weithwyr (EAP)
- Gwyliau blynyddol hael
- Polisïau cyfeillgar i deuluoedd
- Mynediad at Wi-Fi a Microsoft Office 365 am ddim
- Gwobrau cydnabod staff
- Cyfleoedd i ddatblygu

PAM Y DYLECH YMGEISIO

- Cyflog cystadleuol
- Canolfannau rhagoriaeth sy'n benodol i ddiwydiant
- Coleg a thîm arobryn
- Pecyn buddion cystadleuol iawn
- Cyfleoedd rhagorol ar gyfer twf a datblygiad

AMSERLEN RECRIWTIO

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw: **25/11/2021 am hanner dydd** (rhoddir gwybod i ymgeiswyr ar y rhestr fer ar 02/12/2021). Os na fyddwch yn clywed gan y coleg erbyn 02/12/2021, dylech dybio bod eich cais wedi bod yn aflwyddiannus y tro hwn.

Cynhelir y cyfweliad ar: 10/12/2021

Os byddwch yn cyrraedd y rhestr fer ac os hoffech i'r cyfweliad gael ei gynnal yn Gymraeg, cysylltwch â jobs@cymoedd.ac.uk

Sylwer: Bydd y coleg fel arfer yn casglu geiradaon cyn gwahodd ymgeiswyr i gyfweliad.

SUT I WNEUD CAIS

Llenwch bob rhan o'r ffurflen gais a'i dychwelyd at jobs@cymoedd.ac.uk

Sicrhewch eich bod yn defnyddio'r **Disgrifiad Swydd** a'r **Fanyleb Person** i egluro sut mae'ch sgiliau, eich profiad a'ch priodolddau yn eich gwneud yn addas ar gyfer y swydd. Mae angen hanes cyflogaeth llawn, gan gynnwys manylion unrhyw fylchau mewn cyflogaeth. **Peidiwch â chynnwys CV.**

Os ydych yn dymuno anfon eich cais drwy'r post, anfonwch y cais at:

**Yr Adran Adnoddau Dynol,
Coleg y Cymoedd,
Campws y Rhondda,
Llwynypia,
Tonypandy,
RhCT,
CF40 2TQ**

Am drafodaeth anffurfiol am y swydd hon, cysylltwch â Phennaeth yr Ysgol – Tracy Hall ar 07766 521 707 neu e-bostiwch tracy.hall@cymoedd.ac.uk i drefnu amser sy'n gyfleus i'r ddwy ochr.

I gael rhagor o wybodaeth am y coleg, edrychwch ar [Gwefan](#), a'n cyfrifon [Facebook](#), [Twitter](#), [Instagram](#) a [LinkedIn](#)

HAWL I WEITHIO YN Y DU

Mae adran 8 Deddf Lloches a Mewnfudo 2008 yn ei gwneud yn drosedd i gyflogwr gyflogi gweithiwr newydd y mae ei statws mewnfudo yn atal y gweithiwr rhag cael gwaith. Os cewch eich gwahodd i ddod i gyfweiliad gofynnir ichi gynhyrchu tystiolaeth ddogfennol wreiddiol a chyfredol o'ch hawl i weithio yn y DU.

DIOGELU DATA

Bydd unrhyw ddata amdanoch yn cael ei gadw'n ddiogel, gyda mynediad wedi'i gyfyngu i'r rhai sy'n ymwneud â delio â'ch cais yn y broses ddethol. Trwy lofnodi a chyflwyno'ch ffurflen gais rydych yn rhoi caniatâd i brosesu'ch data.

EUOGFARNAU TROSEDDOL

Mae sefydliadau addysg yn y DU wedi'u heithrio o Ddeddf Adsefydlu Troseddwy 1974. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bob ymgeisydd roi gwybod i'r coleg am unrhyw gollfarnau sydd wedi'u disbyddu ac sydd heb eu disbyddu ar eu ffurflen gais ac wrth lenwi ffurflen Datgelu a Gwahardd. Gall methu â darparu'r wybodaeth hon arwain at ddiswyddo. Ceir gwiriad rhestr 99 hefyd ar gyfer unrhyw un a fydd yn gweithio gyda dysgwyr neu'n dod i gysylltiad â dysgwyr, a rhaid i'r coleg ei dderbyn cyn y gall y gyflogaeth ddechrau.

CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Rydym yn cydnabod buddion gweithlu amrywiol - rydym yn ystyried ein hunain yn gyflogwr o ddewis ac wedi ymrwymo i ddileu gwahaniaethu yn y gweithle.

GOFYNION ARBENNIG

Os oes angen addasiadau rhesymol arnoch cyn eich cyfweiliad, cysylltwch â jobs@cymoedd.ac.uk